Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Glanwydden
## Ffordd Dderwen
## Bae Penrhyn
## Llandudno
## Conwy
## LL30 3LB

## Dyddiad yr arolygiad:  Tachwedd 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Glanwydden

Mae Ysgol Gynradd Glanwydden ar gyrion Bae Penrhyn, ger Llandudno yn awdurdod lleol Sir Conwy. Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentrefi Bae Penrhyn, Glanwydden, Bryn Pydew, Llanrhos ac Ochr Penrhyn yn bennaf, er bod rhai ohonynt yn dod o Landudno a Llandrillo-yn-Rhos. Mae 315 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed yn yr ysgol, gan gynnwys 41 oed meithrin sy'n mynychu'n rhan-amser. Mae'r ysgol yn un cyfrwng Saesneg yn bennaf, ond gwneir defnydd helaeth o'r iaith Gymraeg.

Ar gyfartaledd dros dair blynedd, mae gan ychydig dros 3% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n 18%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ychydig o dan 19% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn is na'r ffigwr cenedlaethol, sy'n 21%. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gartrefi Saesneg ond mae tua 14% ohonynt yn siarad Cymraeg gartref.

Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2012 a chynhaliwyd yr arolygiad diwethaf gan Estyn ym mis Ionawr 2014.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar, lle mae'r pennaeth a'i staff yn creu amgylchedd croesawgar, cefnogol a gweithgar ar gyfer y disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. O ganlyniad i'r pwyslais amlwg ar ddrama, cerdd a chelf, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau creadigol yn dda iawn ac mae eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gadarn.

Mae'r athrawon yn paratoi gwersi sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Ar y cyfan, maent yn cynllunio ystod o brofiadau sy'n ymateb i'w gofynion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion yn y cyfnod sylfaen, ac ar adegau, nid yw'r disgwyliadau ohonynt yn ddigon uchel.

O dan arweiniad cadarn y pennaeth, mae gan arweinwyr a staff weledigaeth glir sydd wedi ei seilio ar y gwerthoedd 'gofal, parch, ymdrech a llwyddiant' gydag ethos Cymreig sy'n amlwg trwy'r ysgol. Mae arweinwyr yn cymryd rhan mewn ystod addas o weithgareddau hunanwerthuso. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau gwella ysgol bob amser yn ddigon miniog i adnabod na mynd i'r afael â meysydd sydd angen eu gwella.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Gwella effeithiolrwydd yr holl arweinwyr wrth weithredu gweithdrefnau monitro a chynllunio ar gyfer gwelliant, gan sicrhau bod ffocws priodol ar safonau disgyblion

A2 Miniogi'r gweithdrefnau olrhain cynnydd er mwyn galluogi staff i ddarparu'r lefel briodol o her yn gyson i bob grŵp o ddisgyblion

A3 Sicrhau bod disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel i alluogi pob un o'r disgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu

A4 Cynllunio'n fwriadus i ddarparu cyfleoedd heriol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd a llythrennedd ar draws y cwricwlwm, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau cyfathrebu Saesneg sydd yn cyfateb i, neu'n uwch na'r, safon a ddisgwylir am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Er hynny, nid yw'r disgyblion bob tro'n cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwrando'n astud ac yn siarad yn hyderus am eu gweithgareddau yn Saesneg. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn esbonio eu gweithgareddau yn frwd, er enghraifft wrth drafod pa ddeunyddiau i'w defnyddio i greu rafft sy'n arnofio. Maent yn adeiladu ar eu medrau llafar yn fwriadus wrth iddynt symud drwy gyfnod allweddol 2. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn siarad yn hyderus ac yn aeddfed wrth addasu eu hiaith yn bwrpasol i'r gynulleidfa. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw'r cyflwyniadau dosbarth ar bynciau fel anifeiliaid peryglus neu ar sut mae'r rhyngrwyd wedi newid ein bywydau. Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn iawn o'r iaith Gymraeg ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn dda iawn. Yn y dosbarth meithrin a derbyn, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio patrymau iaith sy'n gyfarwydd iddynt yn hyderus, er enghraifft wrth drafod y tywydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn defnyddio amrywiaeth o eirfa a phatrymau iaith yn fedrus wrth drafod eu gwaith ac mae eu defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd mwy anffurfiol yn datblygu'n llwyddiannus.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o ffoneg. Maent yn defnyddio'u gwybodaeth yn gadarn wrth ddechrau adnabod geiriau newydd, er enghraifft wrth drefnu stori 'Y Lindysyn Llwyglyd Iawn' yn y dosbarth meithrin a derbyn. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn hyderus a chyda mynegiant ac yn trafod eu storïau'n hyderus. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn adeiladu ar eu medrau darllen yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae uwch fedrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol, ac maent yn casglu a chrynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn hyderus, i'w galluogi i ysgrifennu taflen wybodaeth am y cytserau, er enghraifft. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen Cymraeg yn gadarn, yn unol â'u hoed a'u gallu.

Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar cadarn. Erbyn diwedd y dosbarth derbyn, mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu brawddegau syml yn effeithiol wrth ysgrifennu am eu hymweliad i'r sw. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn adeiladu ar eu medrau yn ddigon cyson wrth symud drwy'r cyfnod sylfaen. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu'n ddeallus mewn ystod eang o ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur o safbwynt cymeriad mewn nofel ym Mlwyddyn 3 a 4. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n ddiddorol ar gyfer gwahanol destunau yn y Gymraeg. Esiampl effeithiol o hyn yw'r disgrifiad o gymeriad o Gapel Celyn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau rhifedd. Maent yn adnabod rhifau o oed cynnar yn y cyfnod sylfaen, ac erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn trefnu rhifau at 100 gyda hyder. Mae'r rhan fwyaf yn mesur yn gywir, er enghraifft wrth ddefnyddio blociau i fesur hyd 'neidr', neu bren mesur digidol i fesur hyd gwrthrychau gwahanol i'r centimedr agosaf. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn deall cysyniadau rhif yn dda ac yn eu defnyddio gyda hyder. Maent yn trin data yn gynyddol gywir, er enghraifft wrth lunio graffiau yn eu llyfrau gwyddoniaeth. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth fathemategol i'r un lefel wrth gymhwyso eu medrau rhifedd i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gadarn ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn gwneud defnydd addas o degan rhaglenadwy i ddatblygu eu medrau rheoli cynnar ac maent yn defnyddio pecyn trin data yn briodol i greu siart bloc syml. Maent yn defnyddio meddalwedd celf yn llwyddiannus i greu llun llong morleidr ac yn ychwanegu brawddegau addas. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn creu cyflwyniadau digidol yn fedrus, ac yn defnyddio taenlenni'n llwyddiannus, er enghraifft i ddadansoddi data am draffig yn yr ardal leol.

Mae safon creadigedd rhan fwyaf y disgyblion yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau celf yn dda iawn, er enghraifft trwy ystyried tôn a lliw wrth arlunio ffrwythau. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau cerddorol yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gyfansoddi cerddoriaeth addas i ymateb i sbardun gweledol. Maent yn perfformio'n hyderus, er enghraifft wrth chwarae rôl newyddiadurwyr i ddisgrifio effaith newid hinsawdd ar ein planed.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un disgybl yn arddangos moesau arbennig wrth ryngweithio â chyfoedion ac oedolion. Maent yn groesawgar a chyfeillgar iawn tuag at oedolion ac ymwelwyr, gan siarad yn hyderus am eu balchder o'u hysgol. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at gyfraniadau ei gilydd o oed ifanc. Mae bron pob un yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno, gan wybod at bwy i droi pe bai ganddynt bryder. Mae gan bron pob un ddealltwriaeth drwyadl o sut i gadw'n ddiogel ar-lein trwy gydol yr ysgol. Maent yn gwybod i gadw cyfrifau a chyfrineiriau yn breifat, ac i beidio ymateb i sylwadau negyddol nac i bobl ddieithr.

Mae dealltwriaeth bron pob un o bwysigrwydd bwyta'n iach yn datblygu'n dda iawn o oedran ifanc. Er enghraifft, mae grŵp o'r dosbarth derbyn yn didoli bwydydd iach a rhai sydd ddim yn hollol iach, a thrafod eu dewisiadau yn syml. Mae bron pob un yn mynegi'n effeithiol bwysigrwydd diet cytbwys gan enwi rhai o'r grwpiau bwyd, ac maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd ymarfer corff er mwyn cadw'n iach.

Yn y cyfnod sylfaen, mae bron pob un disgybl yn dangos parodrwydd egnïol i ymgymryd â rolau arweiniol o fewn eu dosbarth. Maent yn dangos balchder a hyder wrth ymgymryd â rôl 'helpwr heddiw', er enghraifft, gyda bron pob un yn awyddus i gymryd ei dro. Mae'r disgyblion sy'n ymgymryd â rolau arweiniol yn dechrau cyfrannu'n briodol at ddatblygiad yr ysgol, gan gasglu a blaenoriaethu awgrymiadau ar amrywiol ffyrdd i wella rhai agweddau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'r arweinwyr

digidol yn effeithiol iawn ac yn datblygu arweinyddiaeth gadarn mewn maes penodol trwy gefnogi disgyblion a staff yn rheolaidd. Fodd bynnag, hyd yma, nid yw rolau arwain disgyblion yn effeithio digon ar welliannau strategol i'r ysgol.

Trwy eu hastudiaethau dosbarth, mae gwybodaeth rhan fwyaf y disgyblion am ddinasyddiaeth fyd-eang a'u dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill yn datblygu'n gadarn. Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6, er enghraifft, yn caffael gwybodaeth bwysig wrth astudio effaith newid hinsawdd. Mae gan lawer o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o grefyddau gwahanol ac maent yn dangos goddefgarwch a chydraddoldeb i eraill.

Mae bron pob un disgybl yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi ac yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol am effaith eu hymddygiad ar eu dysgu. Maent yn ymdawelu'n gyflym yn y rhan fwyaf o wersi ac yn dangos parodrwydd i ddysgu. Wrth symud o amgylch yr ysgol ac mewn gwasanaethau, mae ymddygiad bron pob disgybl o safon uchel.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod eu gwaith yn hyderus gydag oedolion. Ar draws yr ysgol, mae gan bron pob un wybodaeth ddeallus am feddylgarwch, a sut mae hwn yn eu cynorthwyo i ddyfalbarhau yn eu gwaith. Maent yn dangos gwytnwch wrth wynebu heriau. Mae bron pob disgybl yn datblygu annibyniaeth wrth weithio. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn cydweithio'n annibynnol i gyflawni tasgau yn yr ardaloedd dysgu gan ddilyn cyfarwyddiadau a meini prawf llwyddiant sy'n cael eu cyflwyno gan gymeriadau cartŵn. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn dangos balchder tuag at eu gwaith. Pan gânt y cyfle, maent yn mwynhau dewis eu dull o weithio a chyflwyno'r hyn y maent wedi ei gynhyrchu i'w cyfoedion.

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau cyfrannu'n gadarnhaol at drywydd eu dysgu trwy gynnig cwestiynau ar ddechrau thema. Ym Mlwyddyn 3 a 4, gofynnwyd cwestiwn 'pam mae llong yn arnofio ond carreg yn suddo' a oedd wedi ffurfio ymholiad gwyddonol y dosbarth. O ganlyniad, mae ganddynt fwy o berchnogaeth dros eu dysgu. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar hyd yr ysgol yn mwynhau cydweithio fel partneriaid siarad, ac maent yn dechrau ymddiried yn ei gilydd am gymorth. Mae bron pob un yng nghyfnod allweddol 2 yn cydweithio mewn grŵp yn effeithiol i gynhyrchu gwaith o safon uchel, gan barchu cyfraniadau aelodau eraill y grŵp, er enghraifft wrth gynllunio a chreu model o oleudy.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella

Mae'r ystafelloedd dosbarth yn fannau croesawgar a symbylus sy'n annog y disgyblion i ddysgu. Mae gan yr athrawon a'r cymorthyddion gydberthynas weithgar gyda'r disgyblion ac maent yn parchu ei gilydd yn dda. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol gadarn, a chânt eu cefnogi'n effeithiol gan eu cymorthyddion. Mae'r athrawon yn paratoi gwersi sydd yn ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ar adegau, nid oes ganddynt ddisgwyliadau digon uchel, ac o ganlyniad, nid yw pob un o'r disgyblion yn datblygu hyd eithaf eu gallu.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cyflwyno themâu diddorol i'r disgyblion, ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddyn nhw a'u rhieni gyfrannu at gyfeiriad y dysgu. Er enghraifft, yn dilyn syniad gan un disgybl, aeth rhai o ddisgyblion y cyfnod sylfaen am dro i'r traeth lleol i chwilio am drysor gyda darganfyddydd metel fel rhan o'r thema 'Môr Ladron'.

Yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau sy'n ysgogi'r disgyblion yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu datblygu'n gadarn. Mae athrawon yn llwyddo i hyfforddi disgyblion i fynychu a gweithio yn ardaloedd gwahanol y dosbarth yn annibynnol. Yn yr arferion gorau, maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion gymhwyso eu medrau wrth fynd i'r afael â heriau pwrpasol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio ap animeiddio i ddangos môr leidr yn hwylio'i long at ynys a chwilota am drysor. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion gofnodi yn annibynnol, ac nid yw lefel yr her yn yr ardaloedd bob tro'n ddigon uchel. Yn ddiweddar, mae'r staff wedi gweithio ar ddatblygu'r ardal allanol, ac o ganlyniad, mae ystod addas o brofiadau ar gael yno i'r disgyblion. Rhoddir pwyslais amlwg ar ddarparu cwricwlwm sy'n dathlu hanes a diwylliant Cymreig, er enghraifft wrth astudio thema Tywysogion Cymru.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r cynlluniau gwaith yn gymorth i'r athrawon sicrhau bod yr ystod lawn o bynciau cwricwlaidd yn derbyn sylw priodol. Mewn ychydig ddosbarthiadau'r cyfnod hwn, lle mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn annog y disgyblion i ymateb i dasgau heriol yn annibynnol gan ddewis ystod o wahanol ddulliau o weithio. Er enghraifft, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 6 gyflwyno gwybodaeth am newid yn yr hinsawdd trwy actio, creu poster, ysgrifennu cerdd neu wrth greu cyflwyniadau digidol. Mae disgyblion yn cael budd o'r ystod eang o weithgareddau ymarferol sy'n rhoi cymorth iddynt gymhwyso'u medrau a chydweithio, er enghraifft wrth lenwi silindrau mesur gyda dŵr i ganfod cynhwysedd poteli gwahanol.

Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol iawn ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion trwy'r ysgol. Mae hyn yn elfen gref o waith yr ysgol, gyda chyfleoedd bwriadus i ddisgyblion actio, cyfansoddi a chwblhau gwaith celf yn rheolaidd. Darperir cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu eu medrau TGCh trwy'r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn agor, darllen ac ymateb i e-byst gan fôr leidr, tra bod disgyblion Blwyddyn 6 yn creu cyflwyniadau deniadol am newid hinsawdd yn fedrus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cymhwyso medrau rhifedd a llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn anghyson, ac nid yw lefel yr her bob tro'n ddigon i ymestyn disgyblion yn gynyddol. Mae'r amgylchedd Cymreig sy'n bodoli yn yr ysgol yn un o'i nodwedd cryfaf. Mae pob aelod o staff yn modelu iaith yn gywir, sy'n gymorth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg yn llwyddiannus iawn.

Mae llawer o athrawon yn holi disgyblion yn fedrus ar gychwyn sesiynau dysgu i ganfod yr hyn maent eisoes yn ei wybod ac er mwyn symud eu dysgu ymlaen. Maent yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion werthuso'u gwaith eu hunain, a rhoddir ychydig o gyfleoedd addas iddynt werthuso gwaith eu cyfoedion. Mae athrawon yn rhoi adborth priodol i ddisgyblion. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith a gwneud gwelliannau yn dilyn yr adborth hwn.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gyfeillgar a theuluol sy'n hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bob disgybl. Mae'r staff yn annog disgyblion i gydweithio fel un gymuned ac i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n barod i helpu eraill. Enghraifft dda o hyn yng nghyswllt astudiaeth gwella'r hinsawdd, yw'r ffordd y mae'r disgyblion yn gweithio gyda'r gymuned i gasglu sbwriel o draeth lleol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion wneud penderfyniadau am yr hyn sy'n cael ei ddysgu. Er enghraifft, maent yn cynnwys y disgyblion a'r rhieni mewn trafodaethau cychwynnol wrth gyflwyno themâu newydd ac yn cynnwys syniadau'r disgyblion wrth gynllunio gwaith y tymor. Mae hyn yn ennyn balchder yn y disgyblion a theimlad o berchnogaeth.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r cwricwlwm, gwersi ymarfer corff a gweithgareddau allgyrsiol yn sicrhau bod y disgyblion yn deall manteision ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae hyn, a'r berthynas waith werthfawr a llwyddiannus sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni, yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles. Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni yn rheolaidd am weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol. Cynhelir digwyddiadau i sicrhau ymglymiad y rhieni yn addysg eu plentyn, er enghraifft mewn gweithdy diogelwch ar-lein. Mae'r ysgol yn gwrando ar safbwyntiau rhieni ac yn ymateb yn gefnogol i'w syniadau. Cefnogir hyn yn llwyddiannus gan y gymdeithas rhieni ac athrawon wrth iddynt godi arian sylweddol i brynu adnoddau, fel offer technolegol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn gryf, gyda'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fynegi'u barn a'u teimladau mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys holiaduron a blwch postio syniadau. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ddiogelwch, iechyd personol, parch a phwysigrwydd ystyried safbwyntiau ei gilydd. Maent yn dathlu amrywiaeth o wahanol ddiwrnodau arbennig yn ystod y flwyddyn, er enghraifft Sul y Mamau a Dydd Gŵyl Dewi. Maent yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddathlu diwylliannau eraill y byd, er enghraifft y flwyddyn newydd Tsieineaidd a Diwali.

Mae'r ysgol yn hybu parch a goddefgarwch y disgyblion yn effeithiol drwy gynnig cyfleoedd iddynt fyfyrio ar agweddau ysbrydol a moesol. Elfen gref yw'r pwyslais amlwg ar feddylgarwch. Caiff disgyblion wersi gwerthfawr i'w helpu i ddeall sut mae'r ymennydd yn gweithio, pam rydym yn ymateb fel yr ydym, a sut gallwn ni gadw trefn a rheolaeth ar ein lles meddyliol.

Mae staff yn datblygu medrau creadigol disgyblion yn dda iawn. O ganlyniad, mae disgyblion yn cyflawni gwaith celf o safon uchel. Mae'r murluniau a'r arddangosfeydd lliwgar, amlgyfrwng ar draws yr ysgol yn dathlu llwyddiannau celf y disgyblion yn effeithiol. Mae esiampl nodweddiadol o hyn yn cynnwys lluniau atyniadol y mae'r disgyblion wedi'u cynhyrchu yn ôl arddull artistiaid lleol a rhyngwladol.

Mae'r dimensiwn Cymreig a'r defnydd o'r ardal leol yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol yng nghwricwlwm a themâu'r ysgol. Mae'r athrawon yn trefnu ystod eang o ymweliadau a gweithgareddau er mwyn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru. Er enghraifft, maent wedi ymweld ag eglwys leol, Betws y Coed a Chronfa Llyn Alwen, a chymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnir gan yr Urdd.

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn drwyadl ac yn effeithiol. Mae hyn yn nodwedd gref o waith yr ysgol. Mae'r cynlluniau dysgu unigol ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig

yn bwrpasol a defnyddiol. Mae gan yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus gydag asiantaethau eraill sy'n darparu cefnogaeth arbenigol ac arweiniad i staff. O ganlyniad, mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth werthfawr i unigolion yn unol â'u hanghenion, gan gynnwys anghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at greu'r ethos gofalgar a theuluol sy'n bodoli o fewn yr ysgol. Er bod gan yr ysgol weithdrefnau i olrhain cynnydd dysgwyr, nid ydynt yn ddigon miniog i alluogi staff i ddarparu'r lefel briodol o her yn gyson i bob grŵp o ddisgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar greu amgylchedd addysgu diogel i ddisgyblion mewn ethos Cymreig. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni. Maent wedi creu ethos cryf o waith tîm. Mae gan y staff rolau a chyfrifoldebau clir ac maent yn gweithredu arnynt yn gydwybodol. Mae pwyslais cryf yn bodoli ar ddatblygu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig ymysg y disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddealltwriaeth a defnydd y disgyblion o'r iaith Gymraeg ar draws yr ysgol.

Yn raddol, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn datblygu eu cyfrifoldebau o ran gwella gwahanol feysydd o addysgu a dysgu. Er enghraifft, mae'r arweinydd TGCh yn cynnig arweiniad a chefnogaeth glir i staff ar ddatblygu medrau TGCh disgyblion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar hyder staff wrth ddefnyddio TGCh yn eu gwersi ac ar fedrau'r disgyblion yn y maes hwn. Er hyn, nid yw arweinwyr canol bob tro'n cymryd rôl digon strategol mewn monitro a gwerthuso safonau yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae arweinwyr wedi sefydlu ystod addas o weithdrefnau hunanwerthuso er mwyn adnabod llawer o gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau ar y cyd ag aelodau'r cyngor ysgol a thrafodaethau anffurfiol mewn cyfarfodydd. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau hyn yn canolbwyntio'n ddigon clir ar werthuso safonau disgyblion. O ganlyniad, nid yw arweinwyr wedi adnabod nad yw'r ddarpariaeth yn ddigon heriol i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae cyswllt priodol yn bodoli rhwng deilliannau'r weithdrefn hunanwerthuso a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Yn gyffredinol, mae nifer rhesymol o dargedau ar gyfer gwelliant ac mae arweinwyr yn gwerthuso'r cynnydd yn eu herbyn yn rheolaidd. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi arwain at welliannau mewn nifer o feysydd ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae ffocws ar ddatblygu partneriaid trafod wedi sicrhau bod disgyblion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu ac yn dyfalbarhau i oresgyn heriau cyn gofyn am gymorth oedolyn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r gweithdrefnau cynllunio ar gyfer gwella bob tro'n ddigon miniog nac yn cynnwys camau gweithredu digon pendant i alluogi'r staff i ddeall yn union yr hyn sydd angen ei wneud i wella'r ddarpariaeth ymhellach a chodi safonau disgyblion.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol i’r ysgol, ac yn dangos balchder am ei ethos a naws Cymreig. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o’u rolau a’u cyfrifoldebau ac maent yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth yn briodol i adnabod cryfderau’r ysgol a meysydd ar gyfer gwelliant. Maent yn dechrau defnyddio’r wybodaeth sy’n deillio o adroddiadau’r pennaeth ac ymweliadau â’r ysgol i gynnig her briodol i arweinwyr.

Darperir gweithgareddau hyfforddi buddiol i fynd i’r afael ag anghenion proffesiynol staff yn unol â blaenoriaethau’r ysgol a’u hamcanion rheoli perfformiad unigol. Enghraifft effeithiol o hyn yw’r defnydd a wneir o arbenigedd aelod penodol o staff yr ysgol i wella hyder a datblygu dealltwriaeth cyd-aelodau o’r newidiadau i weithdrefnau anghenion addysgol arbennig. Mae cymorthyddion dysgu wedi derbyn hyfforddiant gwerthfawr ar gynnal ymyraethau dysgu. Maent yn rhaeadru gwybodaeth yn effeithiol i staff eraill ac yn defnyddio'u harbenigedd i gynnal sesiynau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad addas sy’n rhoi ffocws effeithiol ar ddatblygu staff yn broffesiynol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn defnyddio’r gweithdrefnau hyn yn ddigon trylwyr i ddwyn athrawon i gyfrif am safonau disgyblion nac am ansawdd yr addysgu.

At ei gilydd, mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn effeithiol. Er enghraifft, mae’r gwaith ar ddatblygu ardaloedd allanol y cyfnod sylfaen yn sicrhau cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau yn yr ardal honno yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar sicrhau bod bron pob un o’r disgyblion hyn yn cyflawni'n dda.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2020